

Mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch cymhwysedd

1. Efallai eich bod wedi datblygu techneg a fydd yn eich helpu i ateb y cwestiynau sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn llwyddiannus. Ar y llaw arall, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â'r dechneg STAR sy'n cael ei disgrifio isod.
2. Mae'r dechneg hon wedi cael ei defnyddio gan lawer i gyflwyno eu tystiolaeth mewn ffordd resymegol, effeithlon ac effeithiol. Gellir defnyddio'r dechneg wrth ysgrifennu ceisiadau ac wrth ateb cwestiynau cyfweliad:
 - **Sefyllfa**
 - **Tasg**
 - **Arferion**
 - **Realiti**
3. Dadansoddwch eich atebion fel a ganlyn:
 - **Sefyllfa** - disgrifiad byr o'r cyd-destun a'ch rôl. Sicrhewch fod eich disgrifiad yn gryno ac yn llawn gwybodaeth.
 - **Tasg** - manylion am yr her, y dasg neu'r swydd benodol oedd yn eich wynebu.
 - **Arferion** - beth wnaethoch chi, a sut a pham wnaethoch chi hynny. Dylai'r arferion y byddwch yn eu disgrifio amlygu sgiliau perthnasol.
 - **Realiti** - beth gyflawnoch chi drwy eich gweithredoedd a beth wnaethoch chi ei gyflawni.
4. Dylech gadw'r rhannau am y sefyllfa a'r dasg yn fyr a chanolbwyntio ar y gweithredu a'r canlyniad. Os nad oedd y canlyniad yn hollol llwyddiannus, disgrifiwch beth ddysgoch chi, a beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf.
5. Gallai STAR eich helpu i ymdrin â'r holl bwyntiau y mae angen i chi eu gwneud. Gwnewch yn siŵr eich bod yn sôn am yr hyn rydych wedi ei wneud yn bersonol a sicrhewch eich bod yn canolbwyntio ar eich cryfderau.
6. Un enghraifft fesul cymhwysedd fyddai'r ffordd orau o ddefnyddio'r esboniad STAR yn llawn.